**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1106
Ein cyf/Our ref JMSS/00664/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 7 Mehefin 2022, ynghylch Deiseb P-05-1106 – 'Cyflwyno Cyllidebau Iechyd Personol a Gofal personol yng Nghymru'.

Nodwn y pryder ynglŷn â'r diffyg annibyniaeth a rheolaeth sydd gan rai unigolion dros eu darpariaeth gofal. I'r perwyl hwn, rydym wedi nodi ymrwymiad penodol i 'Wella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a thaliadau uniongyrchol' yn ein Rhaglen Lywodraethu. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym eisoes wedi cyflwyno nifer o gamau gweithredu gyda'r nod o gyflwyno mwy o hyblygrwydd i bobl sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus yr hoffwn eu rhannu â chi a'r Pwyllgor.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Gofal Iechyd Parhaus y GIG – y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru'* yn 2014 sy'n nodi'r polisi ar gyfer cymhwysedd i gael GIP a chyfrifoldebau sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol o dan y Fframwaith a materion cysylltiedig. Ers y cyhoeddiad cychwynnol, rydym wedi ymgynghori'n agos â rhanddeiliaid i adolygu a diwygio'r fframwaith.

Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig y Fframwaith yn 2021 a daeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2022.

Mae'r fframwaith diwygiedig yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau a mesurau i sicrhau llais a rheolaeth i unigolion, gan gynnwys:

- byrddau iechyd yn cyflogi personél (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth) a gyflogwyd yn flaenorol gan yr unigolyn drwy daliadau uniongyrchol
- byrddau iechyd yn comisiynu Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol (YDA/IUT), a allai gael ei sefydlu gan aelod o deulu'r person sy'n derbyn gofal, i reoli gofal y person hwnnw.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi y bydd canllawiau pellach ar y mesurau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cefnogi'r gwaith ehangach o gyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Llywodraethu, rydym wedi ffurfio Gweithgor GIP/taliadau uniongyrchol i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu grymuso a'u cynnwys wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru (Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Cydraddoldeb), byrddau iechyd, awdurdodau lleol, grwpiau'r trydydd sector, sefydliadau anabledd, pobl anabl a phobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon, y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r Tasglu Hawliau Anabledd. Mae'r grŵp hwn bellach yn cyd-gynhyrchu'r canllawiau i gefnogi llais a rheolaeth.

Mae'r grŵp wedi cytuno y dylai'r canllawiau ychwanegol gynnwys ystod o fesurau, megis canllawiau cyffredinol ar lais a rheolaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol (YDA), byrddau iechyd yn cyflogi staff a gyflogwyd yn flaenorol drwy daliadau uniongyrchol, cyllidebau tybiannol yn ogystal â chynnig rhai atebion newydd sy'n cael eu treialu gan rai byrddau iechyd ar ffurf cyllideb gofal personol.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am godi'r materion hyn ac awgrymu camau gweithredu o ran cryfhau'r gwaith hyrwyddo, arweiniad a chymorth sy'n gysylltiedig â Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol. Byddwn yn cynnwys yr ystyriaethau hyn fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu'r Canllaw a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn drwy ddull cydgynhyrchiol gan ddefnyddio arbenigedd ein Gweithgor.

Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y misoedd nesaf, a byddem yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd maes o law.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services